Cludiant And Ysgolion Anddiffyn Plant Cyngor ac Arweiniad



City and County of Swansea Dinas a Sir Abertawa

Cyngor ac arweiniad ar amddiffyn plant ar gyfer contractwyr, gyrwyr a hebryngwyr cludiant ysgol yn Abertawe.

Mae Côd Arfer Da Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yn darparu cyngor cyffredinol i'r holl rai sy'n ymwneud â gweithrediadau cludiant ysgol o ddydd i ddydd - disgyblion, eu rhieni / gofalwyr, ysgolion, contractwyr cludiant, gyrwyr a hebryngwyr. Mae'r ddogfen hon yn ceisio ehangu ar y materion amddiffyn plant a darparu gwybodaeth fanylach mewn perthynas â'r:

- Ymddygiad a ddisgwylir gan staff dan gontract a'r
- Gweithdrefnau y mae angen eu dilyn yn sgîl datgeliad o gam-drin gan berson ifanc i aelod o staff dan gontract.



Rôl staff cludiant ysgol

Mae diogelu pobl ifanc a'u lles yn gyfrifoldeb ar yr holl bobl y mae ganddynt rôl i'w chwarae yn eu gweithgareddau bob dydd. Mae contractwyr cludiant a'u gweithwyr yn rhan bwysig o'r broses hon ac ni ddylid gorbwysleisio'u cyfraniad.



Dylai staff ymddwyn mewn ffordd broffesiynol bob amser wrth gludo pobl ifanc i'r lle y maent yn cael eu haddysg ac yn ôl. Mae iaith ac ymddygiad anaddas yn annerbyniol a gall arwain at gyflwyno cwynion. Yn ogystal, rhaid osgoi cysylltiad corfforol lle bynnag y bo modd.

Cyngor ar Amddiffyn Plant

Yn ystod y daith, mae'n bosib y bydd disgybl yn dweud wrthych ei fod ef / hi wedi cael ei gam-drin / ei cham-drin neu efallai byddwch yn dod i wybod gan



unigolyn arall neu o'ch arsylwadau eich hun bod y disgybl yn cael ei gam-drin. Yn gyffredinol, y mathau o gam-drin y mae person ifanc yn debygol o'u dioddef yw esgeuluso a chamdriniaeth corfforol, emosiynol a rhywiol.

Yn yr amgylchiadau a ddisgrifir uchod, dylid dilyn yr arweiniad canlynol:

- Peidiwch â holi'r disgybl ynghylch y cam-drin, ond gwrandewch arno a pheidiwch â thrafod y digwyddiad ag ef. Hefyd peidiwch â thrafod yr hyn sydd wedi'i ddweud ag unrhyw ddisgybl arall sy'n teithio ar y daith. Os yw'n bosib, nodwch yr hyn sydd wedi'i ddweud yn ysgrifenedig ar y cyfle cyntaf posib.
- Nodwch ddisgrifiad o'r disgybl, y lleoliad lle cafodd naill ai ei g odi neu ei ollwng, ac enw'r ysgol ynghyd ag enw'r disgybl os yw'n hysbys.
- Ar ddiwedd y daith ac ar ôl cludo'r holl ddisgyblion eraill i'w cyrchfan, rhowch wybod am yr hyn sydd wedi digwydd drwy ffonio'r rhifau ffôn canlynol:

Uned Ysgolion a Llywodraethwyr, Canolfan Ddinesig 🕿 01792 636367 / 637148 / 636551 / 635381

Grŵp Cludiant, Swyddfeydd y Cyngor, Penllergaer 🖀 01792 636079 / 636330

 Os nad oes unrhyw un ar gael, yna dylid hysbysu'r Gwasanaethau Cymdeithasol drwy ffonio
01792 635700. Os ystyrir bod y digwyddiad yn argyfwng, dylid ffonio'r heddlu.

Deellir a derbynnir y bydd pob un o'r mathau hyn o ddigwyddiadau yn unigryw, ac mae'n bosib y bydd gan y rhain eu hanawsterau eu hunain. Serch hynny, mae'n bwysig cofio mai'r peth pwysicaf yw lles y person ifanc, a bydd ymagwedd sy'n defnyddio'r arweiniad uchod yn sicrhau y gellir mynd i'r afael â'r mater rydych wedi dod i wybod amdano yn gyflym.



School Servi

First F

